# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Tachwedd 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog y Cynulliad*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut mae'r Llywodraeth yn mynd ati i roi arian Sector Gwirfoddol Cymru ar delerau mwy cadarn. (WAQ20322)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y bydd y dirywiad yn nifer y tocynnau loteri a werthir a'r gostyngiad yn yr arian sydd ar gael ar gyfer 'achosion da' o ganlyniad i hynny, yn effeithio ar bolisïau ei weinyddiaeth. (WAQ20323)

**Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar Fforwm Ymwybyddiaeth Gweithgareddau Awyr Agored Cymru. (WAQ20324)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Lynne Neagle (Tor-faen);** Faint o arian, fel cyfanswm a fesul disgybl, y bydd Tor-faen yn ei dderbyn drwy gyfrwng Cronfa GEST ar gyfer 2003-04, a sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod y cymunedau hynny sy'n wynebu'r amddifadedd mwyaf yn derbyn cyfran fwy o'r adnoddau. (WAQ20325)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint:
a) o ddatganiadau llafar y mae'r Gweinidog dros Addysg wedi'u gwneud yn y Cyfarfod Llawn ers ei phenodi;
b) o ddatganiadau ysgrifenedig y mae'r Gweinidog dros Addysg wedi'u gwneud yn ystod y toriad ers ei phenodi;
c) o ddatganiadau ysgrifenedig y mae'r Gweinidog dros Addysg wedi'u gwneud yn ystod y tymor, ers ei phenodi. (WAQ20421)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** O ble y bydd y Gweinidog yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer adeilad y Cynulliad petai'r costau yn uwch na'r £26.7 miliwn a neilltuwyd yn wreiddiol,

o ystyried bod yr amcangyfrifon diweddaraf yn rhagweld cyfanswm rhwng £37 miliwn a £47 miliwn. (WAQ20418)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw'n bwriadu sicrhau bod yr holl bren a ddefnyddir i adeiladu Siambr newydd Cynulliad Cymru yn dod o ffynonellau cyfreithlon a chynaliadwy, a bod penseiri a chontractwyr y prosiect yn ymwybodol o ofynion y Llywodraeth yn y cyswllt hwn. (WAQ20424)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig*

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Beth yw'r rheswm pam fod taliadau fesul dafad y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn hwyr yng Nghymru; pam na chafodd dyddiad targed y 31 Hydref ei barchu; ac erbyn pryd y mae'n addo gwneud (a) y taliad cychwynnol o 75%, a (b) y taliad terfynol o £4 y pen. (WAQ20419)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Beth yw ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod y gwaith o weinyddu taliadau lladd a wneir mewn perthynas â ffermydd yng Nghymru, yn cael ei drosglwyddo o Reading i swyddfa yn ei adran yng Nghymru; ac a fydd yn ystyried swyddfa Caernarfon ar gyfer y gwaith hwn. (WAQ20420)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint:
a) o ddatganiadau llafar y mae'r Gweinidog dros Iechyd wedi'u gwneud yn y Cyfarfod Llawn ers ei phenodi;
b) o ddatganiadau ysgrifenedig y mae'r Gweinidog dros Iechyd wedi'u gwneud yn ystod y toriad ers ei phenodi;
c) o ddatganiadau ysgrifenedig y mae'r Gweinidog dros Iechyd wedi'u gwneud yn ystod y tymor, ers ei phenodi. (WAQ20422)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa elusennau sydd wedi derbyn arian gan y Cynulliad i wneud fideos ar gyfer mynd i'r afael â phroblem cam-drin plant. (WAQ20423)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl ddamweiniau neu ddigwyddiadau y cofnodwyd eu bod wedi digwydd ar ffordd osgoi A48/y Bont-faen yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ20425)